

Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Medi 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Ymchwil y Senedd: ymchwil.senedd.cymru
Tanysgrifiwch: [Cylchlythyr](https://www.cylchlythyr.com)

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Medi 2024

Awduron:

Osian Bowyer a Michael Dauncey

Mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn cynnig newidiadau i'r ffordd mae addysg Gymraeg yn cael ei chynllunio a'i darparu gyda'r nod o sicrhau y bydd pob disgybl ysgol, erbyn iddo gyrraedd diwedd yr oedran ysgol gorfodol, yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol

Nod y Bil yw cefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ("Cymraeg 2050"), y mae'n ei osod ar sail statudol. Mae'n ceisio cryfhau'r ffordd y mae addysg Gymraeg - mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg - yn cael ei chynllunio ar lefel genedlaethol, leol ac ysgol. Byddai hefyd yn sefydlu dull o ddisgrifio a mesur gallu unigolion yn y Gymraeg.

Mae'r briff hwn yn crynhoi darpariaethau'r Bil, ei gefndir a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ei gyflawni. Bwriedir iddo gefnogi a llywio gwaith craffu'r Senedd ar y ddeddfwriaeth.



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
Achos Llywodraeth Cymru - pam mae'r Bil yn angenrheidiol	2
Cipolwg ar y Bil.....	3
2. Crynodeb o ddarpariaethau a bwriadau polisi y Bil.....	5
Rhan 1 - Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.....	5
Adrodd ar dargedau a chyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg	5
Adolygu safonau'r Gymraeg	6
Rhan 2 - Disgrifio gallu yn y Gymraeg	7
Mathau o ddefnyddwyr Cymraeg a lefelau cyfeirio cyffredin.....	7
Rhan 3 - Addysg Gymraeg	8
Categoriâu iaith ysgolion.....	8
Hyd a lled y ddarpariaeth addysg Gymraeg	9
Nodau dysgu Cymraeg ysgolion	10
Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion	12
Ysgolion arbennig.....	13
Addysg drochi hwyr yn y Gymraeg	14
Rhan 4 - Cynllunio Addysg a Dysgu Cymraeg	14
Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.....	14
Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol.....	16

Rhan 5 - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol	19
Hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg gydol oes.....	20
Hyrwyddo cyfle cyfartal, arloesi a chydweithio.....	20
Cynllun strategol ac adroddiad blynyddol.....	21
Rhan 6 - Cyffredinol.....	22
Atodlen 1 - Mathau o Ddefnyddiwr Cymraeg a Lefelau Cyfeirio Cyffredin.....	23
Atodlen 2 - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.....	23
3. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth	24
Rheoliadau	24
Cyfarwyddiadau, codau a chanllawiau	24
4. Goblygiadau ariannol ac ystyried opsiynau eraill	26
Opsiynau eraill.....	26
Senarios cost.....	27
5. Gwaith craffu'r Senedd	28
Cyfnod 1.....	28
Cyfnod 2 a thu hwnt.....	28

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd **Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)** i'r Senedd ar 15 Gorffennaf 2024.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei **Rhaglen Lywodraethu** i “ddeddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg”. Roedd hefyd yn nodwedd allweddol o'r **Cytundeb Cydweithio** rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru rhwng Rhagfyr 2021 a Mai 2024.

Wrth gyflwyno'r Bil i'r Senedd, diolchodd Eluned Morgan AS i Cefin Campbell AS, sef Aelod Dynodedig Plaid Cymru yn ystod cyfnod y cytundeb cydweithio, am “y cydweithio agos ar y Bil.”

Gan nodi rhai o fanylion y Bil, **nododd Eluned Morgan AS fod y cynigion** yn ymwneud â “rhoi cyfle teg i bob plentyn yng Nghymru ddod yn siaradwyr Cymraeg”. Byddai'r Bil hefyd yn gosod “disgwyliadau cadarn ynghylch addysg Gymraeg ar draws pob ysgol, beth bynnag yw cyfrwng yr addysg”.

Mae **Memorandwm Esboniadol** y Bil yn nodi mai prif amcan y Bil yw cyfrannu at nod Cymraeg 2050 o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 drwy sicrhau:

bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf.

Mae'r Bil yn cynnig **cryfhau deddfwriaeth ynghylch cynllunio addysg Gymraeg** i “wella deilliannau ieithyddol ein disgyblion”, gan gynnwys drwy **Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**.

Byddai hefyd yn sefydlu **dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg** ar sail **lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR)**. Mae'r Bil yn dynodi **tri chategori o ysgolion** yn seiliedig ar eu hiaith ac yn darparu ar gyfer **pennu gofynion priodol ar gyfer faint o addysg Gymraeg a ddarperir gan bob categori**.

Mae'r Bil hefyd yn cynnig darparu **sail statudol ar gyfer y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050** a sefydlu **Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**. Bydd y corff statudol newydd yn gyfrifol am gefnogi pobl i ddysgu Cymraeg drwy gydol eu hoes.

Achos Llywodraeth Cymru - pam mae'r Bil yn angenrheidiol

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y Bil yn gadarn yng nghyd-destun **agenda Cymraeg 2050**, sy'n cynnwys dau brif darged:

- Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; a
- chynnydd yng nghyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg o 10% (yn 2013 i 2015) i 20% erbyn 2050.

Fel mae'r **Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi'i adrodd yn ddiweddar**, "addysg yw'r maes polisi mwyaf dylanwadol o ran creu siaradwyr newydd" ac "nid oes yr un maes polisi arall yn cael cymaint o ddylanwad ar alluoedd ac arferion ieithyddol". Roedd y Comisiwn hefyd yn "unfarn nad yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn llawer o ardaloedd Cymraeg yn ddigon dwys i gynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol at y dyfodol" a phwysleisiodd fod "angen cymryd camau breision ymlaen yn y maes" .

Mae cydnabyddiaeth gynyddol na fydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gallu darparu'r niferoedd gofynnol o siaradwyr Cymraeg ar eu pen eu hunain. I wneud hyn, rhaid trawsnewid y ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae Cymraeg 2050 hefyd yn cynnwys amcan o weddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70% o'r dysgwyr hynny'n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol yn esbonio** bod angen adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Gymraeg yn Cymraeg 2050 er mwyn "sicrhau ei bod yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r iaith". Mae cyfuniad o fecanweithiau statudol ac anstatudol eisoes wedi'u defnyddio i hybu addysg cyfrwng Cymraeg megis **Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** (WESPs), lle mae awdurdodau lleol yn cael y dasg o gynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg. Fodd bynnag, fel yr **adroddodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (CCWLSIR) ym mis Mai 2023**, mae angen cryfhau a diwygio fframwaith a phensaernïaeth WESPs os yw'r system addysg yn mynd i wneud y cyfraniad angenrheidiol at agenda Cymraeg 2050.

Dywedodd **ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor CCWLSIR** y byddai ei gynigion yn cynnig "sylfaen fwy cadarn ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r Gymraeg mewn addysg yn genedlaethol [drwy'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg] ac yn lleol [drwy'r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg

mewn Addysg arfaethedig]”.

Yn y **Memorandwm Esboniadol**, daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad a ganlyn:

Yn y pen draw, y risg os na wneir deddfwriaeth yw na fydd cynnydd digonol yn cael ei wneud i wireddu'r targedau cenedlaethol a osodir yn strategaeth y Gymraeg, ac na lwyddir i gyflawni nod trosfwaol Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cipolwg ar y Bil

Mae gan **y Bil, fel y'i cyflwynwyd**, 55 o adrannau, wedi'u trefnu'n chwe rhan, ac mae iddo ddwy atodlen:

- **Rhan 1** - Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg
- **Rhan 2** - Disgrifio gallu yn y Gymraeg
- **Rhan 3** - Addysg Gymraeg
- **Rhan 4** - Cynllunio Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg
- **Rhan 5** - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- **Rhan 6** - Cyffredinol
- **Atodlen 1** - Mathau o Ddefnyddiwr Cymraeg a Lefelau Cyfeirio Cyffredin
- **Atodlen 2** - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn cynnwys adran ar ddiben y Bil a'i effaith fwriedig, manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd (yn fwyaf nodedig, cyhoeddi **Papur Gwyn** yn 2023) a chrynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth gan gynnwys gweithdrefnau craffu'r Senedd y byddant yn ddarostyngedig iddynt.

Mae'r **Datganiad o Fwriad y Polisi** yn darparu rhagor o fanylion am yr is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid ei gwneud neu y gellir ei gwneud o dan y Bil, tra bod y **Nodiadau Esboniadol** (sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol) wedi'u cynnwys i gynorthwyo'r rhai sy'n darllen y Bil, a dylid eu darllen ar y cyd ag ef. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** (RIA) sy'n rhoi crynodeb o gostau a buddion amcangyfrifedig y Bil.

Mae Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys Tabl 1, sy'n atgynhyrchu'r crynodeb o'r lefelau cyfeirio cyffredin sydd wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1 i'r Common European Framework of Reference for Languages: Learning, Teaching, Assessment - Companion Volume (2020)**. Fodd bynnag, mae wedi'i ddiwygio i adlewyrchu ei fod yn god ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg.

Mae pŵer hefyd yn adran 5 o'r Bil sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r Tabl yn Atodlen 1 "mewn ymateb i newid a wneir i'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd".

2. Crynodeb o ddarpariaethau a bwriadau polisi y Bil

Rhan 1 - Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg

Mae adran 1 o'r Bil yn gosod **uchelgais Cymraeg 2050** i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i filiwn erbyn 2050, ar sail statudol. Hyd yma, mae'r targed wedi bod yn ddyhead polisi a nodir yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Byddai'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnwys y targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw strategaeth iaith Gymraeg yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae **adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** ("GOWA") yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y bwriadant hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae **Llywodraeth Cymru yn credu bod y Bil** "yn alinio â darpariaeth adran 78, ac yn ymhelaethu arni er mwyn cryfhau atebolrwydd Gweinidogion Cymru wrth osod targedau penodol, ac ymateb i'r targedau hynny". Tra bod Llywodraeth Cymru yn **nodi yn y Memorandwm Esboniadol ei bod "wedi ymrwymo yn llwyr"** i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg, gallai targed wedi ei osod mewn strategaeth gael ei "wanhau neu ddiddymu" yn gyfan gwbl. Drwy osod y targed ar sylfaen statudol, y gobaith yw y bydd yn dileu'r risg o gael ei "lastwreiddio".

Yn ogystal, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a'i defnydd yn y gweithle, gan osod targedau hefyd i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Mae gofynion eisoes ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi 'cynllun' yn flynyddol (adran 78(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru) sy'n disgrifio'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyfrannu at gyrraedd y targedau y mae wedi'u gosod. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd y cynllun blynyddol hwn yn rhoi "arweiniad clir" i'r sectorau hynny y mae'r Bil yn eu cwmpasu, gan gynnwys darparwyr dysgu Cymraeg, ysgolion a chyflogwyr ar y "camau sydd am gael eu cymryd i wireddu'r targedau hynny".

Adrodd ar dargedau a chyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg

Mae adrannau 2 a 3 o'r Bil yn gosod dyletswyddau newydd ar Weinidogion Cymru i adrodd o leiaf unwaith bob pum mlynedd gyda "dadansoddiad o sefyllfa'r Gymraeg", ac ar y modd o gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg.

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r data

i'w ddefnyddio i gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae nifer o ffynonellau data ar gael ac yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gan gynnwys yr **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS), Arolwg Cenedlaethol Cymru** a'r **Cyfrifiad**. Mae'r ffynonellau data hyn yn aml yn darparu canlyniadau gwahanol ac amrywiol iawn ar allu yn y Gymraeg. Mae **Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi bod yn cydweithio** i ddeall y rhesymau dros y gwahaniaeth a nodwyd yn y sgiliau iaith Gymraeg a adroddwyd.

Hyd yma, mae'r Cyfrifiad wedi cael ei ystyried fel y ffynhonnell awdurdodol o ddata ar nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac, yn ôl **Cymraeg 2050**, y Cyfrifiad yw "sail ein huchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg". Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y Cyfrifiad yn cael ei gynnal yn yr un modd yn y dyfodol. **Mae'r SYG yn ystyried** opsiynau ar gyfer defnyddio ffynonellau data eraill a darparu gwybodaeth ystadegol fwy amserol.

Waeth sut y cesglir y data, mae darpariaethau yn adran 3(2) yn ei gwneud yn glir y bydd cyfrifo a yw person yn siaradwr Cymraeg yn cael ei wneud ar sail hunanasesiad neu, yn achos plant o dan 16 oed, hunanasesiad, asesiad gan riant neu ofalwr, neu unrhyw ddull arall y gall Gweinidogion Cymru ei nodi mewn rheoliadau.

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru **gyhoeddi canllawiau ar asesiadau** er mwyn "cynorthwyo unigolion i gwblhau asesiadau, gan gynnwys hunan-asesiad o'u gallu yn y Gymraeg".

Adolygu safonau'r Gymraeg

Mae adran 4 o'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu **Safonau'r Gymraeg** a bennir o dan adran 26 o **Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011**, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r Cod yn disgrifio gallu yn y Gymraeg. Un o **nodau'r darpariaethau yn Adran 4, yn ôl Llywodraeth Cymru**, yw "ymgorffori'r lefelau cyfeirio cyffredin yn y ffordd y mae sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r Safonau yn cynllunio sgiliau Cymraeg eu gweithlu". Wrth gynnal adolygiad o'r safonau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.

Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad newydd i adolygu'r safonau yn gosod unrhyw rwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i'w diwygio. Byddai unrhyw benderfyniad i ddiwygio rheoliadau safonau'r Gymraeg yn destun ymgynghoriad pellach yn ôl y Memorandwm Esboniadol.

Yn y pen draw, **dywed Llywodraeth Cymru** y bydd y ddarpariaeth yn helpu i

“sichrau bod y seilwaith cyfreithiol sy'n cefnogi'r Gymraeg yn gydlynol” a bod y darpariaethau newydd yn y Bil a'r safonau yn “cydblethu ac yn cyd-fynd â'i gilydd”.

Rhan 2 - Disgrifio gallu yn y Gymraeg

Mathau o ddefnyddwyr Cymraeg a lefelau cyfeirio cyffredin

Mae Rhan 2 o'r Bil yn ceisio sefydlu fframwaith newydd ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg. Mae'n seiliedig ar y **Common European Framework of Reference for Languages** (“y CEFR”) Cyngor Ewrop ac mae'n ceisio darparu un dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg.

Mae **Tabl 1 o Atodlen 1 i'r Bil** yn pennu tri math o ddefnyddiwr Cymraeg (Hyfedr, Annibynnol a Sylfaenol) a lefelau cyfeirio cyffredin sy'n disgrifio eu gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar chwe lefel (A1 i C2). Mae'r rhain wedi'u grwpio fel a ganlyn:

- Defnyddiwr sylfaenol (A1 ac A2)
- Defnyddiwr annibynnol (B1 a B2), a
- Defnyddiwr hyfedr (C1 a C2)

Datblygwyd CEFR fel offeryn ar gyfer ymarferwyr ym maes ieithoedd tramor/ail ieithoedd a cheisiodd ddarparu sail gydlynol a chynhwysfawr ar gyfer ymhelaethu ar feysydd llafur iaith a chanllawiau cwricwlwm. Roedd hefyd yn adnodd i helpu gyda'r gwaith o ddylunio deunyddiau addysgu a dysgu ac asesu hyfedredd mewn ieithoedd tramor.

Dywed Llywodraeth Cymru fod cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid yn **defnyddio gwahanol ddulliau ar hyn o bryd i ddisgrifio a mesur sgiliau Cymraeg**, a bod hyn yn ei gwneud yn “anodd i ymwreiddio un gyfundrefn gyson i bwrpas cynllunio ieithyddol”. Byddai'r defnydd o'r fframwaith CEFR, **yn ôl Llywodraeth Cymru**, yn darparu “llwyfan i sichrau mwy o gysondeb o ran y ffordd y caiff gallu yn y Gymraeg ei gofnodi mewn ymarferion casglu data”. Dywed y bydd hyn, yn y pen draw, yn ddull gwell o “gynllunio'r gweithlu a mesur cynnydd tuag at dargedau Cymraeg 2050”.

Mae **Llywodraeth Cymru hefyd yn honni y byddai'r cynigion yn cynnig** “dealltwriaeth gyffredin i ddysgwyr, rhieni, athrawon a chyflogwyr o'r gallu ieithyddol ar bob cam o'r daith tuag at ddysgu'r Gymraeg”. Dywed y byddai hyn yn helpu i “hwyluso cynllunio dilyniant” wrth i ddisgyblion cynradd bontio i'r ysgol uwchradd a thu hwnt i addysg orfodol.

Tra bod rhai cyrff, megis y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, eisoes yn defnyddio'r fframwaith CEFR, bydd yn llai cyfarwydd i eraill. Gall hyn **arwain at "darfu ar rai rhanddeiliaid yn y byrdymor"** yn ôl Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhai costau i'r rhai y bydd angen diweddarau eu gweithdrefnau i gyd-fynd â'r fframwaith newydd.

Mae adrannau 6 a 7 o'r Bil yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Cod sy'n disgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar y CEFR. Dylai hyn **nodi sut y dylid defnyddio'r lefelau cyfeirio cyffredin** ac mae'n disgrifio "nodweddion penodol pob lefel gyfeirio". Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd y Cod yn sefydlu "dull safonol" ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar y CEFR.

Mae'r Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy reoliadau, y Tabl yn Atodlen 1 pan fo'n briodol. Fodd bynnag, mae'r pwerau wedi'u cyfyngu i wneud newidiadau pan fo hynny mewn ymateb i ddiwygiadau i'r CEFR gan Gyngor Ewrop.

Rhan 3 - Addysg Gymraeg

Mae'r rhan hon o'r Bil yn ymdrin â darpariaeth Gymraeg ysgolion a sut y caiff hyn ei ddarparu ar lefel ysgol. Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer system newydd o gynllunio addysg a dysgu Cymraeg ar lefel genedlaethol a lleol (a drafodir yn adran nesaf y briff hwn).

Categoriâu iaith ysgolion

Mae adran 9 o'r Bil yn nodi bod pob ysgol a gynhelir, ac eithrio ysgolion arbennig, yn cael ei dynodi yn un (neu fwy) o'r tri chategori iaith a ganlyn:

- "Prif iaith - Cymraeg";
- "Dwy iaith"
- "Prif iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg".

At ddibenion y Bil, mae "addysg Gymraeg" yn golygu naill ai addysgu'r Gymraeg fel pwnc neu addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol y mae categori iaith ysgol yn berthnasol, felly nid yw'n berthnasol i chweched dosbarth neu ddarpariaeth feithrin ysgol.

Bydd categori iaith ysgol yn pennu faint o addysg Gymraeg a ddarperir yn yr ysgol (adran 10 o'r Bil) a "nod dysgu Cymraeg" yr ysgol (adrannau 11 i 12).

Nid yw categoreiddio ysgolion yng Nghymru yn ôl iaith yn beth newydd, er mai

dyma fyddai'r tro cyntaf iddynt fod yn statudol. Mae ysgolion a gynhelir wedi bod â chategoriâu iaith ar sail anstatudol ers 2007. **Hyd at 2021**, roedd ysgolion cynradd yn perthyn i un o bum categori ac ysgolion uwchradd yn perthyn i un o bedwar categori, er bod gan un o'r rhain (Dwy iaith) bedwar is-gategori. Bu ymgais i symleiddio'r categorïau gyda **chanllawiau anstatudol newydd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021**.

Mae'r canllawiau anstatudol yn nodi tri chategori ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae'r rhain yr un fath i raddau helaeth â'r rhai sydd wedi'u ffurfioli yn y Bil, er bod eu geiriad yn wahanol: 1, Cyfrwng Saesneg, 2, Dwy iaith a 3, Cyfrwng Cymraeg. Mae is-gategori pellach o fewn cyfrwng Cymraeg ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n cyflwyno'r lefel uchaf o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: 3P, Cyfrwng Cymraeg penodedig. Mae dau gategori trosiannol rhwng categorïau 1 a 2, a chategoriâu 2 a 3, gydag ysgolion yn cael eu hannog i symud ymlaen ar hyd y continwwm iaith.

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y system anstatudol wedi "ennyn brwdfrydedd ymhlith awdurdodau lleol" ac yn dadlau ei bod "bellach yn amser rhoi sail gryfach i'r categorïau iaith". Mae'n nodi nad yw'n ofynnol i ysgolion ddilyn y canllawiau anstatudol a'i bod yn anodd monitro'n gadarn a yw gofynion y categorïau'n cael eu bodloni. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd disgrifio categorïau iaith ysgolion yn ôl allbynnau yn ogystal â mewnbynnau. Y mewnbwn yw faint o addysg Gymraeg y mae'n rhaid i ysgol ei darparu, a bennir yn ôl ei chategori (a fyddir gan adran 10), a'r allbwn yw'r nodau dysgu Cymraeg sydd ar waith ar gyfer pob categori (adrannau 11 i 12).

Mae adran 21 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal a chyhoeddi cofrestr sy'n rhoi categori iaith pob ysgol y mae'n ei chynnal a manylion unrhyw ysgolion sydd wedi'u heithrio dros dro rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm addysg (a esbonnir mewn adrannau diweddarach o'r crynodeb hwn). Dywed y Memorandwm Esboniadol fod nifer o awdurdodau lleol eisoes yn cadw gwybodaeth o'r fath ac na ddylai hyn arwain at lwyth gwaith sylweddol uwch nag ar hyn o bryd.

Hyd a lled y ddarpariaeth addysg Gymraeg

Mae adran 10 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu, mewn rheoliadau, faint o addysg Gymraeg y mae'n rhaid i ysgolion ym mhob categori ei darparu. Bydd hyn ar ffurf canran o sesiynau ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol dros flwyddyn ysgol, ac fel ystod yn cynnwys lleiafswm.

Bydd angen i ysgolion Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg ddarparu addysg Gymraeg am o leiaf 10% o amser sesiynau ysgolion. Fel y nodwyd yn gynharach, mae hyn yn golygu naill ai addysgu'r Gymraeg fel pwnc neu addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. **Dywed Llywodraeth Cymru fod yr ymgysylltu y mae wedi'i wneud a'r gwaith ystadegol sydd ar gael** “yn awgrymu bod lleiafswm o 10% yn realistig ac yn deg o ystyried yr heriau sy'n bodoli o ran prinder gweithlu sydd â sgiliau Gymraeg”.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi, yn ôl y canllawiau anstatudol presennol, y dylai ysgolion cyfrwng Saesneg ddarparu 15% o'u darpariaeth yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys amser cwricwlaidd ac allgyrsiol, a theimlir bod gosod gofyniad statudol mewn perthynas â darpariaeth allgyrsiol yn anymarferol oherwydd anawsterau monitro. Y casgliad a roddir, felly, yw bod isafswm o 10% o amser cwricwlaidd yn ddisgwyliad tebyg i 15% o amser cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Mae adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried o leiaf bob pum mlynedd a ddylid arfer y pŵer i wneud rheoliadau i gynyddu'r isafswm o addysg cyfrwng Gymraeg y mae'n rhaid i ysgol Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg ei ddarparu. Felly, mae'r 10% yn cael ei ystyried yn ofyniad sylfaenol y gellir ei gynyddu dros amser, ar yr amod bod **“gweithlu digonol, adnoddau pwrpasol a chefnogaeth effeithiol”**.

Nid yw'r Bil yn pennu isafswm yr addysg Gymraeg ar gyfer ysgolion Dwy Iaith a Phrif Iaith - Cymraeg, er y bydd y rhain hefyd yn ddarostyngedig i ystod a nodir mewn rheoliadau. Yn y **sector cynradd**, mae'r canllawiau anstatudol presennol yn nodi o leiaf 50% mewn ysgolion Dwy Iaith ac o leiaf 80% mewn ysgolion cyfrwng Gymraeg (mae dysgwyr yn cael eu trochi yn y Gymraeg hyd at 7 oed/diwedd Blwyddyn 2). Mewn **ysgolion uwchradd**, yr amod presennol ar gyfer ysgolion Dwy Iaith yw bod o leiaf 40% o ddisgyblion yn ymgymryd ag o leiaf 40% yn y Gymraeg ac, mewn ysgolion cyfrwng Gymraeg, bod 60% o ddisgyblion yn ymgymryd ag o leiaf 70% (pob disgybl yn ymgymryd ag o leiaf 90% mewn ysgolion cyfrwng Gymraeg dynodedig). Mae'r symiau hyn i gyd yn cynnwys amser cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Nodau dysgu Cymraeg ysgolion

Mae adran 11 o'r Bil yn sefydlu “nodau dysgu Cymraeg” ar gyfer ysgolion ym mhob categori. Disgrifir y rhain ymhellach ym **mharagraff 3.119 o'r Memorandwm Esboniadol**.

Mae'r nodau yn eu hanfod yn ymwneud â'r lefel gallu yn y Gymraeg (lefelau a nodir yn Rhan 2 o'r Bil) y mae disgyblion yn ei chyrraedd ym mhob categori o ysgol.

Y nodau dysgu Cymraeg fydd bod disgyblion yn cyrraedd y lefelau canlynol erbyn iddynt orffen addysg orfodol (16 oed/diwedd Blwyddyn 11):

- Ysgolion **Prif Iaith - Cymraeg**: disgyblion i fod yn ddefnyddwyr **“hyfedr”** h.y. cyrraedd lefel gyfeirio **C1 neu C2**.
- Ysgolion **Dwy Iaith**: disgyblion i fod yn ddefnyddwyr **“annibynnol”** h.y. cyrraedd lefel gyfeirio **B1 neu B2**. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud **rheoliadau yn uwchraddio'r nod yn y dyfodol fel bod disgwyl i ddisgyblion gyrraedd B2 ar gyfer rhyngweithio llafar**. (Mae'r Memorandwm Esboniadol (para 3.75) yn nodi bod Cymraeg 2050 yn rhoi diben clir ar gyfathrebu llafar, felly dyma'r maes blaenoriaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg.)
- Ysgolion **Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg**: disgyblion i fod yn ddefnyddwyr Cymraeg **“sylfaenol”** h.y. cyrraedd lefel gyfeirio **A1 neu A2**. Bydd disgwyl i gynlluniau cyflenwi addysg Cymraeg ysgolion (sy'n ofynnol o dan adran 14 o'r Bil ac a drafodir yn yr adran ganlynol o'r briff hwn) hwyluso gwelliant parhaus. Dywed y Memorandwm Esboniadol mai'r disgwyliad dros amser fydd y bydd mwyafrif helaeth y disgyblion yn cyrraedd A2. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud **rheoliadau yn uwchraddio'r nod yn y dyfodol fel bod disgwyl i ddisgyblion ddod yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol** h.y. cyrraedd lefel gyfeirio B1 neu B2, a **B2 ar gyfer rhyngweithio llafar**.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd yr amserlen ar gyfer uwchraddio'r nodau addysg Gymraeg mewn ysgolion Dwy Iaith a Phrif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg yn seiliedig ar “gynnydd priodol a wneir yn y categorïau hyn” ac ar “ffactorau megis adnoddau a gapasiti'r gweithlu”. Ni fydd y nodau yn y ddau gategori o reidrwydd yn cael eu huwchraddio ar yr un pryd.

Mae adran 12 o'r Bil yn defnyddio'r ddarpariaeth yn **Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru, fel bod disgyblion yn gwneud cynnydd tuag at nod dysgu Cymraeg ysgol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw parhaus i'r nodau dysgu Cymraeg wrth adolygu'r Cod Cynnydd (a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2021).

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer caniatáu eithriadau dros dro i'r gofyniad i ddarparu o leiaf 10% o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ysgolion Prif iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg (adrannau 18 a 19 o'r Bil).

Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion

O dan adran 14 o'r Bil, rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion baratoi cynllun cyflawni a elwir yn "gynllun cyflawni addysg Gymraeg". Bydd y cynllun hwn yn:

- nodi categori iaith yr ysgol;
- nodi swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol ar adeg llunio'r cynllun;
- esbonio sut y bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn unol â'i chategori iaith;
- nodi sut y bydd yr ysgol yn hybu addysg drochi hwyr;
- nodi cynigion o ran swm yr addysg Gymraeg sydd i'w ddarparu yn ystod cyfnod y cynllun, a chynigion ar gynnal y swm hwnnw neu ei gynyddu pan fo hynny'n rhesymol ymarferol;
- nodi sut y bydd yr ysgol, at ddibenion cyflawni nod dysgu Cymraeg yr ysgol, yn hybu ethos a diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol; hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol; a hwyluso gwelliant parhaus yn addysg Gymraeg yr ysgol;
- nodi'r cynigion y bwriedir eu cymryd i newid categori iaith yr ysgol, os yw'r corff llywodraethu yn dymuno.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai nod cynlluniau cyflawni** yw "rhoi arweiniad i ysgolion wrth iddynt gynllunio eu haddysg Gymraeg ar lefel ymarferol". Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n manylu ymhellach ar ffurf a chynnwys cynllun o'r fath. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ychwanegu y byddai templed ar gyfer cynlluniau cyflawni "yn ddefnyddiol" fel bod ysgolion yn "deall beth yn union y mae disgwyl iddynt ei wneud".

Wrth baratoi eu cynlluniau cyflawni, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion ymgynghori â phobl benodedig a rhoi sylw i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Bydd rhaid i'r ysgol gyflwyno ei chynllun cyflawni arfaethedig i'r awdurdod lleol (o leiaf naw mis cyn dechrau'r cynllun) a all ei gymeradwyo gydag addasiadau y cytunwyd arnynt gyda'r corff llywodraethu, neu hebddynt, neu ei wrthod a chyfarwyddo'r corff llywodraethu i'w ailystyried. Os yw'n gwrthod cynllun cyflawni ysgol, rhaid i'r awdurdod lleol roi ei resymau a phennu pryd mae'n rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach.

Rhaid i ysgolion gyhoeddi eu cynllun cyflawni addysg Gymraeg cymeradwy. Mae pob cynllun cyflawni yn para tair blwyddyn ysgol. Rhaid i gyrff llywodraethu adolygu cynllun eu hysgol yn ystod y cyfnod hwn a chyflwyno unrhyw gynllun

diwygiedig i'r awdurdod lleol ei gymeradwyo. Wrth ddiwygio ei chynllun cyflawni, ni chaiff ysgol israddio ei chategori iaith (adran 17).

Eithriadau i isafswm yr addysg Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn y Memorandwm Esboniadol y bydd darparu o leiaf 10% o addysg yn Gymraeg yn "her i rai ysgolion, a hynny am resymau a all fod y tu hwnt i'w rheolaeth".

Mae adran 18 o'r Bil yn nodi y gall ysgol, wrth baratoi neu ddiwygio ei chynllun cyflawni addysg Gymraeg cyntaf, wneud cais i'r awdurdod lleol ei heithrio dros dro o'r gofyniad i ddarparu'r isafswm (10% i gychwyn) o addysg Gymraeg. Rhaid i gynllun cyflawni'r ysgol nodi'r rhesymau pam nad yw'n rhesymol ymarferol i ddarparu'r isafswm a sut y mae'n bwriadu gallu gwneud hynny yn y dyfodol a phryd (rhaid i hyn fod o fewn cyfnod tair blynedd y cynllun). Rhoddir eithriad dros dro o'r fath os yw'r awdurdod lleol yn cymeradwyo cynllun cyflawni addysg Gymraeg yr ysgol gyda'r cafeatau hynny wedi'u cynnwys.

Pan fo ysgol yn teimlo na all fodloni'r gofyniad darpariaeth sylfaenol o hyd wrth baratoi ei hail gynllun cyflawni addysg Gymraeg, caiff ofyn am eithriad pellach (adran 19 o'r Bil). Os felly, rhaid i ail gynllun cyflawni drafft yr ysgol nodi pam mae hyn yn wir a chyflwyno camau gweithredu arfaethedig wedi'u diweddarau ar gyfer mynd i'r afael â hyn. Os nad yw'r awdurdod lleol yn fodlon â'r esboniad, gall gyfarwyddo'r ysgol i ailystyried ei chynllun cyflawni, ond bydd cymeradwyo'r cynllun i bob pwrpas yn caniatáu'r eithriad. Bydd rhaid i'r awdurdod lleol adrodd i Lywodraeth Cymru gan egluro pam y cymeradwyodd gynllun cyflawni'r ysgol a manylion unrhyw gymorth a gynigir i gorff llywodraethu'r ysgol.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai'r rhesymeg y tu ôl i adrannau 18 a 19** yw "na fydd yn rhesymol ymarferol i rai ysgolion ddarparu'r isafswm o 10% pan ddaw'r gofyniad hwnnw i rym". Mae'n ychwanegu y gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ac ysgolion yn amlinellu rhesymau dilys dros gymeradwyo cais am eithriad.

Ysgolion arbennig

Fel y dywedwyd yn gynharach, nid oes dyletswydd ar ysgolion arbennig i ddarparu swm penodol o ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, nac i ddynodi categori iaith iddynt. Fodd bynnag, cânt wneud hynny'n wirfoddol ac mae'r Bil yn dal i'w gwneud yn ofynnol iddynt baratoi "cynllun addysg Gymraeg" sy'n nodi faint o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol a sut y byddant yn hyrwyddo ethos a diwylliant Gymraeg ac

yn hybu defnydd o'r iaith yn yr ysgol (adran 20).

Addysg drochi hwyr yn y Gymraeg

Mae adran 22 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol annog y galw am addysg drochi hwyr yn y Gymraeg a chyfranogiad ynddi. Rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr sy'n bodloni'r galw amdani. Rhaid iddynt hefyd drefnu bod gwybodaeth a chyingor yn cael eu darparu ynghylch argaeledd addysg drochi hwyr i blant a rhieni, ysgolion a phobl benodedig eraill.

At ddibenion y Bil, mae "addysg drochi hwyr" yn golygu addysg ddwys yn y Gymraeg i blant dros 7 oed sy'n mynychu neu sydd eisiau mynychu ysgol Prif iaith - Cymraeg neu ysgol Dwy iaith. Ei diben yw caniatáu i hwyrddyfodiaid gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfnodau y tu hwnt i Flwyddyn 2, a hyd at y pwynt hwnnw y mae plant sy'n cael eu haddysgu yn y Gymraeg yn cael eu trochi'n llwyr yn yr iaith. Mae'n rhan hanfodol felly o gefnogi dysgwyr sy'n symud i addysg Gymraeg o addysg cyfrwng Saesneg, er enghraifft, yn mynychu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu Ddwy iaith, ar ôl mynychu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg.

Rhan 4 - Cynllunio Addysg a Dysgu Cymraeg

Nod y rhan hon o'r Bil yw sicrhau bod dull cydgysylltiedig o gynllunio addysg a dysgu Cymraeg ar lefel genedlaethol, ar lefel awdurdodau lleol ac ar lefel ysgolion.

Dywed Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol fod y cynigion polisi y tu ôl i Ran 4 yn "hanfodol i lwyddiant" y cynigion polisi y tu ôl i Ran 3 ar gategoreiddio a chynlluniau cyflawni iaith ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru hefyd am sefydlu "llinell atebolrwydd glir" rhwng lefelau cenedlaethol, lleol ac ysgolion.

Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg

Mae adran 23 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi fframwaith sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ei strategaeth Gymraeg (y mae'n ofynnol iddi ei chael o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru) mewn perthynas ag addysg Gymraeg, dysgu gydol oes y Gymraeg a chaffael yr iaith. Bydd y fframwaith hwn yn cael ei adnabod fel y "Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg". Fel yr **esbonia'r Memorandwm Esboniadol, mae hyn er mwyn sicrhau bod trefniadau ar gyfer addysg Gymraeg a dysgu gydol oes y Gymraeg** yn cael eu "cynllunio mewn modd

integredig mewn un fframwaith cynhwysfawr”.

Rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy:

- **gynyddu** darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion;
- **gwella** darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion;
- **hyrwyddo** addysg mewn ysgolion categori Prif Iaith - Cymraeg a Dwy Iaith a chynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn;
- sicrhau bod **hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth** ar gael i ymarferwyr addysgol fel bod y gweithlu angenrheidiol yn ei le i gyflawni targedau a osodir gan Lywodraeth Cymru;
- **hwyluso cynnydd** wrth addysgu Cymraeg fel pwnc ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng addysg cyn-ysgol ac addysg orfodol, a rhwng ysgol ac addysg a hyfforddiant ôl-16.

Rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol ymdrin ag addysgu a dysgu Cymraeg i bob oed: gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar; addysg orfodol; addysg drydyddol; yn y gweithle ac yn y gymuned.

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Fframwaith Cenedlaethol i osod targedau ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu'r fframwaith yn eu hardal eu hunain ac sy'n adlewyrchu targedau ac uchelgeisiau cenedlaethol. Gall targedau ac uchelgeisiau o'r fath gynnwys cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg mewn ysgolion Prif iaith - Cymraeg, cynyddu nifer yr ysgolion o'r fath a chynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion Dwy Iaith ac ysgolion Prif iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg. Rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i gyrraedd y targedau hyn.

Wrth osod targedau o'r fath, rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol gynnwys asesiad o'r addysg Gymraeg a ddarperir ar y pryd mewn ysgolion ym mhob awdurdod lleol, dadansoddiad o faint o addysg Gymraeg sydd ei hangen er mwyn cyrraedd unrhyw darged a osodwyd, ac asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol.

Gall y Fframwaith Cenedlaethol hefyd osod targedau ar gyfer yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (a sefydlwyd o dan Ran 5 o'r Bil ac a drafodir mewn adran ddiweddarach o'r papur briffio hwn) i gynyddu nifer y bobl dros oedran ysgol gorfodol sy'n dysgu Cymraeg a gwella gallu'r rhai sy'n dysgu Cymraeg.

Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phobl a bennir yn adran 26 o'r Bil wrth baratoi neu ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol. Rhaid iddynt hefyd gynnwys gwybodaeth am y Fframwaith Cenedlaethol yn yr adroddiad blynyddol y maent yn ei gyhoeddi o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ynghylch strategaeth y Gymraeg. Rhaid iddynt hefyd nodi yn y cynllun blynyddol ynghylch gweithredu'r strategaeth, a gyhoeddir hefyd o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, sut y byddant yn gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol.

Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd a rhaid i Weinidogion Cymru ei adolygu ynghyd â'r targedau sydd ynddo o leiaf bob 5 mlynedd, gan ddiwygio'r fframwaith yn ôl yr angen (adran 25).

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Lleol

Mae adran 28 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi "cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol" sy'n nodi sut y byddant yn hybu a hwyluso addysg Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion. Rhaid i gynlluniau strategol awdurdodau lleol hefyd nodi sut y byddant yn cymryd pob cam rhesymol i gyrraedd targedau a osodwyd gan y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

Bydd y trefniadau ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg lleol o dan y Bil yn diwygio'r system bresennol o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs) a sefydlwyd o dan **Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** a rheoliadau cysylltiedig. Yn ei **Bapur Gwyn 2023**, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai "shifft mewn meddylfryd" i un lle byddai Gweinidogion Cymru "yn gosod nod strategol yr awdurdod lleol o ran cynllunio'r Gymraeg mewn addysg. Swyddogaeth yr awdurdod lleol fydd cynllunio a gweithredu". Cynigiodd y Papur Gwyn newid teitl y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i Gynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (WEIPs) i adlewyrchu'r newid hwnnw mewn meddylfryd. Fodd bynnag, mae'r Bil yn cadw'r teitl Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, er bod "lleol" wedi'i gynnwys. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio atynt fel "Cynlluniau Strategol Lleol".

Mae'r **Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai diben y darpariaethau hyn yn y Bil** yw "sicrhau bod aliniad rhwng y weledigaeth genedlaethol a osodir yn y Fframwaith a'r gwaith o gynllunio addysg Gymraeg a wneir ar lefel awdurdodau lleol". Mae Llywodraeth Cymru am i'r "Cynlluniau Strategol Lleol ymateb i dargedau'r Fframwaith Cenedlaethol" ac i "gynlluniau cyflawni ysgolion ymateb i dargedau'r Cynlluniau Strategol Lleol".

Diffygion y system WESPs bresennol

Bu cryn waith craffu ac adolygu ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail iddynt, gan gynnwys ymchwiliadau Pwyllgor y Senedd yn **2015** a **2023**, a dynnodd sylw at ddiffyg modd i Lywodraeth Cymru wireddu ei huchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg mewn addysg. Nid oedd yn amlwg beth y gallai Gweinidogion Cymru ei wneud pe na bai Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol yn ddigon uchelgeisiol neu os nad oedd awdurdodau lleol yn cyflawni'r cynlluniau a oedd ganddynt ar waith. Cafwyd hefyd **adolygiad annibynnol o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** yn 2017 a **ffurfiwyd Bwrdd Cyngori Annibynnol**, a arweiniodd at newidiadau yn 2019, gan gynnwys disgwyliad ar awdurdodau lleol i fynd ar drywydd targedau yn unol â Cymraeg 2050. Fodd bynnag, fel yr **amlinellodd y Papur Gwyn**:

Er y diwygiadau hyn yn sgil argymhellion y Bwrdd, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oedd y strwythur deddfwriaethol presennol bellach yn cefnogi cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg gan awdurdodau lleol i'r graddau sydd eu hangen i ymateb i'r uchelgais genedlaethol hirdymor ar gyfer y Gymraeg i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Cynnwys cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

Mae'r Bil yn nodi bod rhaid i gynllun strategol awdurdod lleol nodi sut y bydd yr awdurdod yn:

- gwella darpariaeth addysg Gymraeg yn ei ysgolion;
- gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn ei ardal;
- sicrhau bod ganddo ddigon o ymarferwyr addysg yn gweithio yn ei ardal;
- hyrwyddo a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion Prif Iaith – Cymraeg a Dwy Iaith yn ei ardal;
- cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 22 o'r Bil ynghylch addysg drochi hwyr;
- hwyluso cynnydd mewn addysg Gymraeg rhwng addysg feithrin ac addysg ysgol, a rhwng ysgolion ac addysg drydyddol.

Rhaid i gynlluniau strategol awdurdod lleol hefyd gynnwys gwybodaeth am yr ymarferwyr addysg yn ei ardal ac, yn achos cynlluniau'r dyfodol, adroddiad ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r cynllun blaenorol.

Y broses o wneud a chymeradwyo cynlluniau strategol lleol

Wrth baratoi eu cynllun, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. Rhaid iddynt hefyd

ymgyngori â phobl benodedig, gan gynnwys pob ysgol a choleg yn eu hardal, Estyn, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (a sefydlwyd gan y Bil hwn) a Chomisiynydd y Gymraeg.

Bydd cynlluniau awdurdodau lleol yn weithredol am bum mlynedd, er bod rhaid iddynt nodi'r camau i'w cymryd dros 10 mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth dros y blynyddoedd diwethaf fod hyd presennol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg o dair blynedd yn rhy fyr i gael effaith ystyrlon. Yn ystod **Ymchwiliad y Pwyllgor CCWLSIR yn 2023**, roedd safbwyntiau gwahanol am fanteision ac anfanteision cyfnod hwy, er enghraifft, 10 mlynedd. Teimlai rhanddeiliaid y byddai hyn yn galluogi cynllunio hirdymor mwy effeithiol ond bod angen adrodd a monitro mwy rheolaidd i ddarparu'r atebolrwydd angenrheidiol. **Dywed Llywodraeth Cymru fod y cyfnod o 5 mlynedd gyda throsolwg o 10 mlynedd** "yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu hyblygrwydd i weithredu dros y tymor canolig i'r tymor hir, ond gydag atebolrwydd yn sgil y gofyniad i adrodd ar y cynnydd a wnaed ar ddiwedd pob cynllun".

Rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno drafft o'u cynlluniau strategol lleol i Weinidogion Cymru, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion i'w hymgyngoriad ac ymateb yr awdurdod lleol i'r ymgynghoriad hwnnw. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod lleol, neu hebddynt, neu ei wrthod a chyfarwyddo'r awdurdod lleol i'w ailystyried. Os byddant yn gwrthod cynllun awdurdod lleol, rhaid i Weinidogion Cymru roi rhesymau a phennu erbyn pryd y mae'n rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach. Mae hon yn broses debyg i'r un y mae'r Bil yn ei rhoi ar waith rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch cymeradwyo cynllun cyflawni addysg Gymraeg ysgol (a drafodwyd yn gynharach).

Cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ddiwygio eu cynllun

Rhaid i awdurdodau lleol barhau i adolygu eu cynlluniau strategol lleol (adran 32). Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod awdurdod lleol yn annhebygol o gyrraedd targed yn y Fframwaith Cenedlaethol, cânt gyfarwyddo'r awdurdod lleol i ystyried diwygio ei gynllun. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol naill ai gyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru ei ystyried neu roi rhesymau dros beidio â diwygio ei gynllun.

Mae adran 33 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg lleol drwy reoliadau.

Rhan 5 - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae adran 36 o'r Bil yn sefydlu corff statudol newydd o'r enw yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i "hwyluso a chefnogi pobl o bob oedran i ddysgu'r Gymraeg". Mae'r **Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:**

nid oes un corff penodol yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes. O ganlyniad, mae'r gefnogaeth i ddysgu Cymraeg wedi'i rannu ar draws sawl sefydliad a phartneriaeth gan arwain at ddiffyg dilyniant ar draws y sector addysg a gwahanol gweithleoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddai cynnal y system bresennol yn gwneud y nod cyffredinol o weithredu un continwwm sgiliau Cymraeg yn anoddach. Yn ogystal, gan fod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol presennol yn gweithio ar gylchoedd caffael pum mlynedd, **nid yw Llywodraeth Cymru yn teimlo bod hyn yn darparu'r** "sicrwydd a'r hirhoedledd priodol i gorff sy'n cefnogi dysgu Cymraeg - yn enwedig os caiff y gefnogaeth honno ei hymestyn i'r sector addysg orfodol".

Yn ei **hymgyngoriad Papur Gwyn**, cynigiodd Llywodraeth Cymru ehangu ac ailddiffinio cylch gorchwyl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i "fod yn gorff arbenigol sy'n cefnogi dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys cefnogi ysgolion". Fodd bynnag, mae'r **crynodeb o'r ymatebion** i'r ymgynghoriad yn dangos bod y farn yn rhanedig ar yr egwyddor o ganoli cymorth arbenigol. Dim ond 37% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd yn cytuno â'r cynnig, gyda 39% yn anghytuno. Mae'r rhesymau o blaid ac yn erbyn y cynnig i'w gweld yn y **crynodeb o ymatebion Llywodraeth Cymru**.

Byddai'r corff newydd yn ymgymryd â swyddogaethau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol bresennol, sy'n cefnogi dysgu Cymraeg i'r rhai dros oedran addysg orfodol (16+). Bydd hefyd yn cael cyfrifoldebau newydd, gan gynnwys:

- cynllunio datblygiad y gweithlu addysg at ddiben gwella addysgu'r Gymraeg;
- cydlynu a chomisiynu ymchwil ar addysgu neu ddysgu Cymraeg;
- rhoi cyngor i unrhyw berson ar addysgu neu ddysgu Cymraeg; a
- hyrwyddo cydweithio rhwng darparwyr dysgu Cymraeg ac ysgolion yng Nghymru.

Mae'r Bil hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i osod swyddogaethau ychwanegol ar yr Athrofa, ond rhaid i'r swyddogaethau hyn ymwneud â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg neu hwyluso eu cynnydd.

Hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg gydol oes

Mae adran 37 yn nodi amcan craidd yr Athrofa, sef cefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg a hwyluso eu cynnydd. Bydd y corff newydd yn ceisio sicrhau bod pobl yn ymwybodol “nad yn yr ysgol yw'r unig gyfle i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau”.

Mae adran 37 yn rhoi dyletswyddau amrywiol ar yr Athrofa i gyflawni'r amcanion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg;
- darparu, neu hwyluso darpariaeth, deunyddiau dysgu Cymraeg;
- darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i'r rheiny sydd dros oedran ysgol gorfodol a gwella eu lefelau gallu yn y Gymraeg;
- datblygu cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg i'r rheiny sydd dros oedran ysgol gorfodol.

Er bod llawer o swyddogaethau'r Athrofa yn canolbwyntio ar bobl dros oedran ysgol gorfodol, mae'r **Memorandwm Esboniadol yn nodi** mai “un o'r canlyniadau o arfer y swyddogaethau hyn fydd i gefnogi addysg ac addysgu'r Gymraeg gydol oes”. Nid oes bwriad i'r Athrofa “ddarparu cyrsiau a gweithgareddau yn uniongyrchol i ddisgyblion 3-16 mewn ysgolion”. Serch hynny, rhagwelir y bydd y ddarpariaeth a gynllunnir ac a drefnir gan y corff newydd yn “gwella'r ddarpariaeth i blant 3-16 ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â lefelau sgiliau dysgu Cymraeg”.

Mae darpariaethau yn yr adran hon hefyd yn rhoi pwerau i'r Athrofa gydlynw a chomisiynu ymchwil ar addysgu neu ddysgu Cymraeg, yn ogystal â rhoi cymorth ariannol i unrhyw ddarparwr dysgu Cymraeg (hynny yw, pobl sy'n addysgu Cymraeg neu'n cynnig darpariaethau addysgu Cymraeg i bobl dros oedran ysgol gorfodol) i gynorthwyo addysgu neu ddysgu Cymraeg.

Mae pwerau cyffredinol hefyd i'r Athrofa “wneud unrhyw beth arall” i gefnogi a hwyluso pobl i ddysgu Cymraeg os yw'n “ystyried ei fod yn briodol i gyflawni targed sydd wedi'u gosod yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg o dan adran 23(7)”.

Hyrwyddo cyfle cyfartal, arloesi a chydweithio

Mae adrannau 39 i 42 o'r Bil yn nodi rhai meysydd penodol y disgwylir i'r Athrofa weithredu ynddynt. Mae hyn yn cynnwys cynyddu cyfranogiad a lleihau bylchau o ran cyrhaeddiad dysgu Cymraeg ymhlith grwpiau 16 oed a throsodd heb

gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r Bil yn ymhelaethu ar y diffiniad o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel a ganlyn:

grwpiau amrywiol o bersonau pan fo'r gwahaniaethau hynny yn deillio o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

Noda'r Memorandwm Esboniadol fod y Bil:

yn adlewyrchu pa mor bwysig ydyw ei fod gennym sector dysgu Cymraeg sy'n diwallu anghenion pobl sydd dros oedran ysgol gorfodol a chydha gwahanol ddiddordebau, cymwyseddu, anghenion a dyheadau.

Mae'r Bil hefyd yn gosod gofyniad ar yr Athrofa i hybu "codi safonau" o ran dysgu Cymraeg, ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd "mewn sefyllfa ddelfrydol i hybu arloesedd a gwelliant parhaus ar draws y sector dysgu Cymraeg".

Yn olaf, rhaid i'r Athrofa hefyd hybu cydweithio rhwng y rhai sy'n gyfrifol am wella sgiliau Cymraeg dysgwyr. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio y gall hyn gynnwys ariannu prosiectau cydweithredol a gweithio gyda darparwyr dysgu i "ddatblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweddu darpariaeth". Elfen arwyddocaol yw'r cynnig i'r Athrofa hyrwyddo cydweithio "rhwyng darparwyr dysgu Cymraeg ac ysgolion (nad ydynt yn ddarparwyr dysgu Cymraeg)", ynghyd â darparwyr addysg drydyddol a chyflogwyr yng Nghymru.

Drwy ei gydweithrediad â gwahanol sectorau, byddai disgwyl i'r Athrofa nodi bylchau mewn sgiliau iaith Gymraeg a:

pharatoi ymyraethau wedi'u targedu at weithleoedd, sectorau, neu ardaloedd daearyddol penodol er mwyn gwella gallu cyrff a sectorau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r **crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn** yn nodi bod ymatebwyr yn cyfeirio at yr angen am gydweithio rhwng gwahanol sectorau, yn enwedig er mwyn sicrhau "nad yw cynyddu nifer y gweithlu mewn un sector yn cael effaith andwyol ar weithlu sector cysylltiedig (e.e. gweithwyr blynyddoedd cynnar yn symud i ysgolion i fod yn gynorthwyr dosbarth)".

Cynllun strategol ac adroddiad blynyddol

Fel corff statudol, bydd yn ofynnol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd, o dan adrannau 44 a 45, gyhoeddi cynllun strategol bob 3 blynedd, ac adrodd yn flynyddol ar y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau.

Wrth baratoi ei gynllun strategol, byddai'n ofynnol i'r Athrofa ymgynghori â Gweinidogion Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac

Ymchwil, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, darparwyr dysgu Cymraeg sy'n derbyn cyllid gan yr Athrofa ac unrhyw berson neu gorff arall a ystyrir yn briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol, drwy sicrhau mewnbwn eang gan y rhanddeiliaid allweddol hyn, y bydd "pob cynllun strategol yn gydgyssylltiedig â strategaethau ehangach", gan hwyluso mwy o aliniad ar draws sefydliadau mewn perthynas â dysgu Cymraeg.

Bydd angen i Weinidogion Cymru hefyd gymeradwyo'r cynllun strategol a ddatblygwyd gan yr Athrofa, a fydd, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn sicrhau bod "gweledigaeth a chynllun gwaith yr Athrofa yn cyd-fynd â gweledigaeth ehangach Gweinidogion Cymru".

Rhan 6 - Cyffredinol

Mae Rhan 6 yn nodi rhai darpariaethau cyffredinol ynghylch gweithrediad y Bil a phryd y daw darpariaethau i rym.

Daw Rhan 6 (ac eithrio adran 47 - *Diddymu darpariaethau yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*) ac adrannau 1(1)(a) ac 1(3) i rym pan fydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Daw adrannau 1(4) ac adran 5 - *Mathau o ddefnyddiwr Cymraeg a lefelau cyfeirio cyffredin*, i rym ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

Daw adran 47 a holl ddarpariaethau eraill y ddeddfwriaeth i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Mae adran 52 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â'r pwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil hwn.

Mae adran 46 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion, wrth arfer eu dyletswyddau o dan Ran 3 a 4 o'r Bil, roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 47 yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae hyn yn golygu nad oes angen dilyn y broses ar gyfer newidiadau cyfrwng iaith a ddisgrifir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2013 mwyach. Yn hytrach, bydd Rhan 3 o'r Bil hwn yn gwneud darpariaethau ynghylch newid cyfrwng iaith addysgu mewn ysgolion.

Mae adran 48 yn ychwanegu Rhan 3 (Iaith Gymraeg) a Rhan 4 (Cynllunio Addysg a Dysgu Cymraeg) at y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996. Mae hyn yn golygu bod modd cydgyssylltu deddfwriaeth addysg yn

effeithiol, ac mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai'r brif effaith y tro hwn yw ei fod yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd os bydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio â dyletswyddau o dan y Bil, neu'n arfer swyddogaethau o dan y Bil mewn ffordd afresymol.

Mae adrannau 50 a 51 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â chyhoeddi dogfennau a rhoi neu anfon hysbysiadau, cyfarwyddiadau neu ddogfennau eraill. Mae'n nodi bod rhaid i ddogfennau fod mewn fformat electronig, ond hefyd wedi'u cyhoeddi mewn fformatau eraill.

Mae adrannau 49, 53 a 55 yn nodi diffiniadau ar gyfer termau allweddol yn y Bil, trefniadau canlyniadol a throsiannol ac enw byr ar gyfer y ddeddfwriaeth.

Atodlen 1 - Mathau o Ddefnyddiwr Cymraeg a Lefelau Cyfeirio Cyffredin

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn cael eu cefnogi gan y fframwaith CEFR sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 1. Mae'r Tabl yn rhoi disgrifiad o allu yn y Gymraeg, gan gynnwys y math o ddefnyddiwr Cymraeg a lefel gyfeirio gyffredin (A1-C2).

Mae'r Tabl hwn wedi'i atgynhyrchu (mewn perthynas â'r Gymraeg) o'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd a ddatblygwyd gan Gyngor Ewrop.

Atodlen 2 - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae Atodlen 2 yn cefnogi'r darpariaethau sy'n sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd yn Rhan 5. Mae'n nodi'r broses ar gyfer penodiadau a thelerau'r prif weithredwr, y cadeirydd, aelodau staff ac aelodau anweithredol yr Athrofa.

Mae hefyd yn gosod rheolau ar gyfer cyfarfodydd, pwyllgorau ac is-bwyllgorau a materion ariannol. Mae Atodlen 2 hefyd yn cadarnhau nad yw'r Athrofa i'w hystyried yn gorff y Goron.

3. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil wedi'u rhestru yn nhabl 5.11 ym **Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol**. Mae Tabl 5.1.2 yn rhestru pwerau i wneud cyfarwyddiadau, a chyhoeddi codau a chanllawiau.

Rheoliadau

Mae'r Bil yn rhoi 26 pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ac un pŵer i wneud gorchymyn.

- Mae **16** o'r rhain i'w harfer o dan weithdrefn **gadarnhaol ddrafft**¹ y Senedd.
- Mae wyth i'w harfer o dan weithdrefn negyddol y Senedd.
- Bydd un pŵer yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol ddrafft os caiff deddfwriaeth sylfaenol ei diwygio, ond fel arall mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Dyma'r pŵer i wneud darpariaeth sy'n ddarpariaeth gysylltiedig, atodol neu ganlyniadol neu i wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed.
- Mae un pŵer arall, sef y pŵer i bennu cyfnod cynllunio'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn gofyn am y weithdrefn negyddol wrth bennu'r cyfnod cyntaf o'r fath a'r cyfnodau tair blynedd dilynol a'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft os yn newid hyd tair blynedd cyfnodau o'r fath.
- Nid oes angen gweithdrefn Senedd ar y pŵer i wneud gorchymyn (hynny yw, y Gorchymyn Cychwyn).

Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer defnyddio pŵer presennol i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ynghylch trefniadau asesu.

Cyfarwyddiadau, codau a chanllawiau

Mae'r Bil yn rhoi **10 pŵer neu ddyletswydd i roi cyfarwyddiadau, codau, canllawiau a rheolau**. Nid oes angen unrhyw weithdrefn y Senedd ar unrhyw un o'r rhain.

1 O dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ni all yr offeryn statudol ddod yn gyfraith hyd nes bydd y Senedd yn pleidleisio i'w gymeradwyo a Gweinidogion Cymru yn dod ag ef i rym. O dan y weithdrefn negyddol, mae'r offeryn statudol yn dod i rym yn awtomatig pan gaiff ei wneud gan Weinidogion Cymru, ond gall y Senedd bleidleisio i'w ddi-ddymu o fewn 40 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod.

- Mae tri phŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau. Mae dau bŵer hefyd i awdurdodau lleol roi cyfarwyddiadau i gorff llywodraethu ysgol lle mae'r awdurdod lleol yn gwrthod cynllun cyflawni addysg Gymraeg cyntaf yr ysgol, neu gynllun cyflawni wedi'i ddiwygio. Mae pŵer pellach i roi cyfarwyddyd wedi'i gynnwys ar gyfer yr Athrofa Dysgu Gymraeg Genedlaethol ynghylch dirprwyo ei swyddogaethau i'w phwyllgorau.
- Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi canllawiau i gynorthwyo unigolion i gwblhau hunanasesiadau o'u gallu yn y Gymraeg. Mae pŵer hefyd i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ac ysgolion ar eu swyddogaethau o dan y Bil.
- Bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Cod sy'n disgrifio gallu yn y Gymraeg, yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd.
- Bydd dyletswydd ar yr Athrofa Dysgu Gymraeg Genedlaethol i wneud rheolau i reoleiddio ei gweithdrefn ei hun.

4. Goblygiadau ariannol ac ystyried opsiynau eraill

Mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi'r costau a amcangyfrifir gan Lywodraeth Cymru a'i hystyriaeth o opsiynau eraill.

Amcangyfrifir mai cost yr opsiwn a ffefrir (y Bil) yw **£103.2 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd** (2025-26 i 2034-25). Mae hyn yn cynnwys £5.8 miliwn o gostau gweinyddol ar gyfer sefydlu sawl elfen o'r Bil a £97.3 miliwn o gostau, gan fwyaf, i awdurdodau lleol ac ysgolion o ran cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o dan y Bil.

Mae'r £5.8 miliwn o gostau gweinyddol yn cynnwys datblygu'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, canllawiau a rheoliadau, yn ogystal â datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol a sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae cynigion eraill yn y Bil "yn adeiladu ar strwythurau ac arferion sydd eisoes yn bodoli", megis targed Cymraeg 2050, categorïau iaith ysgolion a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r £97.3 miliwn o gostau cydymffurfio yn cynnwys ysgolion yn paratoi cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg, cynyddu eu darpariaeth Gymraeg i gyflawni nodau dysgu Cymraeg, a diwygiadau i'r system Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg bresennol.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd arbedion cost a buddion yn gysylltiedig â'r Bil, ond mae'n dweud "nid yw'n bosibl mesur yr arbedion cost hyn ar hyn o bryd".

Opsiynau eraill

Yn ogystal â'r "opsiwn a ffefrir" a gwneud dim (yr opsiwn "busnes fel arfer"), mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn disgrifio "opsiwn amgen". Ystyriwyd hyn er mwyn penderfynu a ellid darparu cyfran fawr o fuddion disgwylidig yr opsiwn a ffefrir am gost sylweddol is.

Defnyddiwyd y sefyllfa busnes fel arfer bresennol fel llinell sylfaen ar gyfer asesu effaith yr opsiynau eraill ar gyfer pob rhan o'r Bil. Rhoddir manylion hyn yn Nhabl 1 (yn dilyn paragraff 7.5) yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Ni roddir ffigurau ar gyfer cost yr opsiwn amgen heblaw am ddisgrifiad bras o'r effaith ariannol fel "uchel", "canolig" neu "isel".

Senarios cost

Mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi tri senario** y mae Llywodraeth Cymru yn credu y gallent ddod i'r fei pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith:

- **Senario 1:** Mae'r cynnydd presennol tuag at y nod y bydd pob disgybl sy'n gadael addysg statudol erbyn 2050 yn gallu siarad Cymraeg yn annibynnol ac yn hyderus yn dda. Felly, yn syml, mae'r Bil yn cefnogi hyn ac yn sicrhau bod cynnydd da yn parhau. Felly, mae'r newid yn sgil y Bil **yn fach iawn ac mae'r costau'n isel**.
- **Senario 2:** Nid yw'r cynnydd presennol tuag at yr un nod yn bodloni disgwyliadau. Felly, mae angen y Bil i gryfhau gweithgareddau presennol er mwyn cydlynu cynnydd yn well. Felly, bydd y Bil yn gwneud **rhai newidiadau** a bydd **rhai costau**.
- **Senario 3:** Nid yw'r cynnydd ar y trywydd iawn ac mae darpariaethau'r Bil yn llawer mwy uchelgeisiol nag arfer presennol. Mae hyn yn golygu y bydd **angen newidiadau sylweddol** o ganlyniad i'r Bil, felly bydd **costau sylweddol**.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld bod senario 2 yn debygol o ddigwydd, ac mae'n debyg bod yr amcangyfrif y bydd y bil yn costio £103 miliwn dros ddeng mlynedd yn adlewyrchu hyn.

5. Gwaith craffu'r Senedd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad ysgrifenedig** pan gyflwynwyd y Bil i'r Senedd ar 15 Gorffennaf 2024, a rhoddwyd **datganiad llafar** yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf 2024.

Mae pedwar cyfnod i broses y Senedd o graffu ar Filiau, ac fe'u hesbonnir yn y **Canllaw i'r Broses Ddeddfu**.

Cyfnod 1

Mae **Pwyllgor Busnes** y Senedd wedi cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac wedi pennu 13 Rhagfyr 2024 fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil (craffu Cyfnod 1).

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar drwy gydol misoedd Medi a Hydref. Mae hefyd wedi lansio **galwad cyffredinol am dystiolaeth** ar y Bil, sy'n para tan 11 Hydref 2024.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses graffu Cyfnod 1 ar **dudalen we y Bil**.

Bydd darpariaethau a goblygiadau ariannol y Bil hefyd yn destun craffu **y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**, a'r **Pwyllgor Cyllid**, a fydd yn adrodd o'u safbwyntiau eu hunain.

Cyfnod 2 a thu hwnt

Os bydd y Bil yn mynd rhagddo y tu hwnt i'w ddadl Cyfnod 1 a bod yr Aelodau o'r Senedd yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol, bydd yn destun gwelliannau yng Nghyfnod 2. Bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystyried y gwelliannau hyn. Mae amserlen y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Bil yn pennu bod rhaid cwblhau Cyfnod 2 erbyn 7 Mawrth 2025.

Yna, bydd y Bil yn destun diwygiadau pellach gan yr holl Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn y bleidlais derfynol ynghylch pasio'r ddeddfwriaeth (Cyfnod 4).